



Cofnodi a Gwirio Gwirfoddolwyr Urdd Gobaith Cymru

Mae gan yr Urdd ddyletswydd gofal i sicrhau fod yr holl weithgareddau a gynigir yn enw'r Urdd yn ddiogel. Mae diogleu plant rhag niwed yn rhan o'r dyletswydd yma, ac mae'r Urdd ar bob adeg yn ceisio diogleu plant a phobl ifanc trwy

- roi cymorth ac arweiniad i staff a gwirfoddolwyr
- wirio (CRB/DBS) staff a gwirfoddolwyr sydd mewn cyswllt â phlant a phobl ifanc
- gynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu i staff a gwirfoddolwyr.

Y mae'r Côd Ymarfer ar gyfer diogelu plant mewn sefydliadau gwirfoddol yn Lloegr a Chymru - 'Diogelu Rhag Niwed' (1993) yn nodi y dylai cyrff gwirfoddol:

- fabwysiadau datganiad polisi ar ddiogelu lles plant a gweithdrefnau clir ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr
- gynllunio gwaith y sefydliad er mwyn cyfyngu i'r eithaf ar sefyllfaoedd lle gallai cam-drin ddigwydd
- wneud gweithdrefnau diogelu plant y cytunwyd arnynt yn gymwys i'r staff a'r gwirfoddolwyr i gyd
- roi hyfforddiant atal cam-drin plant i staff a gwirfoddolwyr

Mae'r broses hon o gofnodi a gwirio gwirfoddolwyr yn gam at wireddu hyn ac mae gan yr Urdd ddyletswydd gofal cryf i sicrhau fod yr aelodau o dan ein gofal yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag niwed. Yn unol â Deddf Plant 1999 a'r ddyletswydd gofal i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed mae'n ofynnol i'r Urdd gofnodi gwirfoddolwyr a gwneud gwiriad trwy gyfrwng y gwasanaeth Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB/DBS). Ni fydd cost i chi na'r Urdd.

Diolch yn fawr iawn am eich cydweithrediad a'ch parodrwydd i sicrhau fod yr Urdd yn gosod y safonau uchaf wrth ddarparu gweithgareddau i blant a phobl ifanc Cymru.